personol i Mrs Morgan am ei sirioldeb a'i gwasanaeth parod dros y blynyddoedd. Dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol ac i'r teulu, yn arbennig i'w merch Rhian (cyn-ddisgybl o'r ysgol) sydd erbyn hyn wedi cychwyn ar ei gyrfa yn y banc ym Machynlleth. Yn ei ffordd ddidwyll, arferol diolchodd Mrs Morgan hithau i bawb. Bu presenoldeb y ddau yn fodd i ddwyn llawer o atgofion melys i nifer am amser difyr iawn a dreuliwyd yn eu cwmni dros y blynyddoedd.

Cawsom gyfle yn ystod y mis i groesawu'r gofalwr newydd sef Mr A Meredith i'n plith.

Treuliodd plant dosbarth 4 gyfnod difyr a diddorol un prynhawn ar fferm Brynllys, Dol-y-bont. Buont hefyd, ynghyd â dosbarth 3 yn mwynhau gweithgareddau'r ŵyl "Llanw Llyfrau" yn Aberystwyth. Roedd yr olwg foddhaol ar eu hwynebau wrth ddychwelyd i'r ysgol yn brawf o'r mwynhad a gafwyd.

Gobeithiwn ail-gydio yng ngweithgareddau'r Urdd ar y nos Lun cyntaf wedi hanner tymor, sef 6 Tachwedd.

Braf gweld cynifer o ddysgwyr yn mynychu'r gwersi Cymraeg ar nos Fawrth yn yr ysgol. daliwch ati.